Amser Dyn – CA5

Tasg 4: Trafod

Alegori stori'r alarch — Act 1 Golygfa V (t. 34)

JOHN: Pan oeddwn i tua deuddeg. Roeddwn i'n cerdded hyd ochor 'rafon ac yn sbïo i'r dŵr clir. Mi fedret ti weld y graean ar y gwaelod wrth ochor y lan. Roedd yna alarch ar y dŵr, yn mynd yn ara' deg ac yn trochi ei big bob hyn-a-hyn. Dyma fi'n dŵad ar glwmp o hesg a dyma'r alarch yn cyffroi drwyddo ac yn dechrau nofio tuag ata' i. Ac o'r hesg dyma 'na glamp o alarch gwyllt yn dŵad allan gan glecian ei adenydd a'i wddw fo'n chwifio 'run fath â neidr. A dyma fo'n ei gwneud hi amdana' i, yn eitha' cyflym ond yn afrosgo.

MEGAN: Be' wnest ti?

JOHN: Dyma fi'n ei g'leuo hi a'r sŵn 'ma yn yr hesg y tu ôl imi.

MEGAN: Be' ddigwyddodd wedyn?

JOHN: Wedi mynd yn ddigon pell dyma fi'n cael cerrig ac yn ei bledu o, fo a'r un oedd ar y dŵr.

MEGAN: Wel am beth i'w wneud!

JOHN: Ie. Ond dyna wnes i.

MEGAN: Gwarchod eu nyth yr oedden nhw.

JOHN: Ie m'wn. Ymhen hir a hwyr, ar ôl imi orffen taflu cerrig ac i bethau lonyddu.

- Trafodwch y darn hwn o'r ddrama. Oes lle i'w ddehongli fel alegori sy'n cynrychioli rhai o themâu'r ddrama gyfan?